Prosiect menter ar y cyd sy'n
cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraf o'r
# ystafell newyddion

Chwefror 2022




Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru



# croeso

Rhifyn Chwefror 2022

## Neges gan Tamsyn Rowe, Rheolwr y Prosiect.



Tamsyn Rowe, Rheolwr y Prosiect

Yn y rhifyn hwn cewch wybodaeth am yr hyn sydd wedi newid ers ein cylchlythyr diwethaf wrth i ni gynllunio ar gyfer Awel y Môr, sef y buddsoddiad mwyaf mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru dros y degawd nesaf.

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn rydyn ni'n ei wneud i gefnogi'r gadwyn gyflenwi a datblygu sgiliau yng ngogledd Cymru yn ogystal â newyddion am yr ymgynghoriad anffurfiol sydd i'w gynnal ar ein pecyn buddion cymunedol arfaethedig. Hefyd, cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am rai mân newidiadau dylunio, yn cynnwys cynnig compownd adeiladu dros dro ychwanegol.

Fel bob amser, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â thîm y prosiect ar-lein drwy ein gwefan, dros yr e-bost neu dros y ffôn, gan ddefnyddio'r manylion sydd ar waelod y dudalen hon.

# Ymgynghoriad ar becyn buddion cymunedol

## Mae unigolion a sefydliadau o bob rhan o ogledd Cymru yn cael eu gwahodd i helpu i siapio sut gall cymunedau'r rhanbarth rannu'r budd o Fferm Wynt Awel y Môr.

Mae RWE yn awyddus i glywed barn pobl ynghylch pa fath o becyn buddion cymunedol y gellid ei gynnig, a sut y dylid ei weinyddu.

Mae Tamsyn Rowe, rheolwr prosiect Awel y Môr ar ran RWE, yn credu bod clywed amrywiaeth o safbwyntiau yn allweddol i sicrhau bod y rhanbarth yn manteisio i'r eithaf ar y manteision a ddaw yn sgil ynni adnewyddadwy.

> **"Mae gan RWE wreiddiau dwfn yma yng ngogledd Cymru: rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y rhanbarth dros y blynyddoedd diwethaf, o ran ein gweithlu ym Mostyn, ond hefyd gyda chynlluniau fel Gwynt y Môr a Chlocaenog, wrth iddynt barhau i weithredu, wrth ddatblygu eu cadwyni cyflenwi, a hefyd gyda'u pecynnau buddion cymunedol nhw," meddai.**
>
> **"Rydyn ni'n gwybod o brofiad o sefydlu'r elfen hon o brosiect bod angen paratoi'n ofalus, a seilio hynny ar wrando yr un mor ofalus.**
>
> **"Mae'r ymgynghoriad anffurfiol hwn yn rhoi cyfle i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o gefnogi cymunedau lleol o'i gymharu â chynlluniau tebyg eraill yng ngogledd Cymru, wrth i'r prosiect ei hun barhau ar ei daith.**
>
> **"Am y chwe wythnos nesaf, byddwn yn gofyn am ymatebion ynghylch y ffordd orau i'r prosiect gynnig cefnogaeth, ynghyd â'r egwyddorion arweiniol a'r hyn y dylai ei dargedu."**

Yn ogystal â chysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned a'r sector gwirfoddol, bydd Awel y Môr hefyd yn ceisio clywed gan unigolion mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy holiadur ar-lein.

Mae'r ymgynghoriad, sy'n rhedeg o Chwefror 21 tan Ebrill 4, ar gael ar wefan y prosiect: www.awelymor.cymru/y-gymuned

# Diwygiadau dylunio

**Ar ôl gwrando ar bryderon trigolion, mudiadau cymunedol a rhanddeiliaid eraill yn ystod ymgynghoriad statudol 2021, ac ystyried canlyniadau astudiaethau amgylcheddol a thechnegol sydd wedi'u diweddaru, rydym wedi diweddaru ein cynlluniau a chyflwyno rhai cynigion newydd o ran ardal glanfa'r prosiect.**

Fel y nodwyd yn ein cylchlythyr ym mis Rhagfyr, mae hyn wedi cynnwys symud rhan o'r seilwaith arfaethedig ar y tir oddi wrth Gwrs Golff y Rhyl.

Mae ein dyluniadau wedi esblygu mewn ffyrdd eraill hefyd, i sicrhau nad yw rhaglen adeiladu Awel y Môr yn gwrthdaro â rhaglen Cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol Prestatyn, ac i leihau'r tarfu posibl yn lleol.

Mae'r cynigion hyn yn cynnwys lleoliad newydd, amgen ar gyfer Compownd Adeiladu Dros Dro (TCC) y prosiect ar y traeth a'r mynedfeydd cysylltiedig, a fyddai i'r gorllewin o Ganolfan Bowlio Gogledd Cymru ac ychydig dros 2km i'r dwyrain o TCC Ffordd Garford (ymgynghorwyd ar hyn yn flaenorol yn 2021). Dim ond un o'r ddau leoliad fydd yn cael ei ddewis ar gyfer y rhaglen adeiladu derfynol.

O ganlyniad i'r cynlluniau hyn sydd wedi'u diweddaru, rydyn ni hefyd wedi cynnwys ardaloedd bach o dir ychwanegol ar hyd llwybr y ceblau yn y dyluniad sydd wedi'i ddiweddaru, fel a welir yn y ddogfen **"Disgrifiad o'r ardaloedd ychwanegol ar y tir a nodwyd ar gyfer Awel y Môr"**, sydd ar gael ar wefan y prosiect yma https://exhibition.awelymor.cymru/updatedplans-cy

Byddwn yn ymgynghori â'r rhai gofynnol ynghylch y diwygiadau dylunio hyn.

Mae a wnelo'r ardaloedd bach hyn â mân newidiadau dylunio, yn cynnwys nodi ardaloedd ar gyfer mynediad a gwaith lliniaru amgylcheddol; neu sicrhau aliniad rhwng Terfynau Gorchymyn y prosiect ac ymarferion mapio sylfaen yn ôl yr angen.

Mae'r cynlluniau diweddaraf, a'r dogfennau eraill y cyfeirir atynt, ar gael i'w gweld ar y wefan yma: https://exhibition.awelymor.cymru/updatedplans-cy



# Hybu'r gadwyn gyflenwi a datblygu sgiliau

Hyd yn oed cyn iddo ddechrau cynhyrchu'r ynni glân a fydd yn helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau sero net, mae Awel y Môr yn gwneud ei ran i helpu i ddatblygu gallu o ran y gadwyn gyflenwi a sgiliau ledled gogledd Cymru.

## Cefnogi'r gadwyn gyflenwi

Mae Awel y Môr yn ceisio sicrhau bod cwmnïau lleol yn cael eu cynnwys lle bynnag y bo modd. Rydyn ni eisoes wedi rhoi hyn ar waith drwy benodi cwmnïau lleol i ddarparu gwasanaethau dylunio, arolygu a datblygu gwefannau.

Gan adeiladu ar hyn, mae RWE yn hyrwyddo datblygiad clwstwr newydd ar gyfer y gadwyn gyflenwi, sef y Cynghrair Ynni Alltraeth (OEA). Mae hyn hefyd yn rhan o gyflawni ein hymrwymiadau o ran Bargen y Sector Gwynt ar y Môr.

Mae'r clwstwr hwn yn bodoli i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sydd i ddod ym maes datblygiadau gwynt ar y môr, hwyluso rhyngweithio ar draws haenau'r gadwyn gyflenwi, yn ogystal â hyrwyddo digwyddiadau a gweithgarwch arall ym maes arloesi, hyfforddiant a sgiliau.

I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, dilynwch dudalen LinkedIn y clwstwr yma: www.linkedin.com/company/the-offshore-energy-alliance/





Morgan Read, prentis

## Cynlluniau'r Gadwyn Gyflenwi

Fel rhan o'i waith yn paratoi i wireddu Awel y Môr, mae tîm y prosiect yn creu cynllun cadwyn gyflenwi ar gyfer y cyfnod adeiladu a'r tu hwnt, er mwyn cefnogi busnesau lleol, gweithgareddau arloesi, mentrau sgiliau a seilwaith ymhellach.

Mae'r tîm yn dechrau drwy astudio'r ffordd orau i'r cynllun hwn weithio er budd y rhanbarth, ac ar ran RWE a Chyngor y Diwydiant Gwynt ar y Môr (OWIC), mae'n helpu i ganfod cyfleoedd gweithgynhyrchu ac yn rhoi cyngor ynghylch pa gyfleusterau porthladd a gweithgynhyrchu y bydd eu hangen.

## Cefnogi gweithgareddau sgiliau lleol

Mae RWE a thîm Awel y Môr yn deall pwysigrwydd gweithlu medrus i gefnogi twf gwynt ar y môr. Mae gan RWE bartneriaeth werthfawr gyda Grŵp Llandrillo Menai sydd, hyd yma, wedi hyfforddi 38 o brentisiaid tyrbinau gwynt ar ei gampws yn Llandrillo yn Rhos.

Bydd y coleg hefyd yn cynnal canolfan hyfforddi RWE i'r DU gyfan, gan roi'r rhanbarth wrth galon ein gweithgareddau hyfforddi a sgiliau ledled y wlad.

Yn olaf, mae RWE hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill, fel Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor, lle rydym wedi darparu cyllid cychwynnol ar gyfer PhD yn ddiweddar.

# Rheolwr Cyfathrebu a Rhanddeiliaid newydd yn ymuno â'r tîm



## Mae rheolwr cyfathrebu a rhanddeiliaid newydd wedi ymuno â thîm y prosiect yn Awel y Môr.

Mae Josh Morris, sy'n byw ym Mangor, fydd yn gyfrifol am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am gynnydd y prosiect, yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt i'r cyfryngau lleol.

Ac yntau wedi ysgrifennu cyn hyn i'r Daily Post a'r Denbighshire Free Press yn ogystal â gweithio gyda nifer o fusnesau lleol, mae Josh yn adnabod yr ardal a'i chymeriad yn dda.

Y tu allan i'r gwaith, mae Josh yn feiciwr rasio, yn cystadlu efo Clwb Beicio Egni yng Nghaernarfon, ac yn frwd dros ddysgu'r Gymraeg.

Dywedodd: **"Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae gogledd Cymru wedi chwarae rhan flaenllaw mewn ynni adnewyddadwy yn y DU, gydag RWE wrth galon hynny. Nawr fel rhan o'r tîm sy'n gweithio ar Awel y Môr, rwy'n edrych ymlaen at wneud fy rhan drwy gadw'r gymuned yn y ddolen wrth i'r prosiect fynd rhagddo."**